Ein Penderfyniadau: *Dull Rheoleiddio i Sicrhau'r Cynnig Cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru*

Mehefin 2023

Cynnwys

Cyflwyniad **3**

Crynodeb Gweithredol **4**

Ein Penderfyniadau **5**

Sicrhau bod yr ystod lawn o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru ar gael i ddysgwyr 5

Sicrhau bod yr ystod lawn o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru ar gael drwy gydol y cyfnod Cymeradwyo 6

Diwygiadau canlyniadol i ddogfennau rheoleiddio eraill 7

Asesu Effaith **8**

Y Camau Nesaf **10**

Cyflwyniad

Fel rhan o'r prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol, rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid o'r sector addysg ar gyd-greu cenhedlaeth newydd o gymwysterau TGAU sydd wedi'u dylunio'n benodol i ddiwallu anghenion dysgwyr 14–16 oed yng Nghymru. Gwnaethom gwblhau ein hymgynghoriad ar y cynigion dylunio ar gyfer pob un o'r cymwysterau TGAU hynny ym mis Rhagfyr 2022 ac rydym bellach wedi cyhoeddi ein penderfyniadau ar ddyluniad yr ystod newydd o gymwysterau TGAU wedi'u Gwneud i Gymru.

Rydyn ni eisiau bod yn hyderus y bydd dysgwyr a chanolfannau yng Nghymru yn gallu dewis o'r ystod lawn o gymwysterau TGAU newydd a fwriedir i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Rydyn ni hefyd am i gynnig cymwysterau 14-16 y dyfodol fod yn un hyfyw, cynaliadwy a sefydlog.

I'r perwyl hwnnw, lansiwyd ymgynghoriad gennym ddydd Mawrth 17 Ionawr 2023 i geisio barn cyrff dyfarnu cydnabyddedig ar ein cynnig bod yn rhaid i unrhyw gorff dyfarnu sydd am gynnig y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd hyn, gynnig yr ystod lawn o bynciau TGAU, a sicrhau bod y cymwysterau hynny ar gael i ddysgwyr drwy gydol eu cyfnod Cymeradwyo.

Roeddem yn cynnig mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni hyn fyddai gwneud y corff neu'r cyrff dyfarnu perthnasol yn destun Amod Cydnabod Arbennig yn unol ag Atodlen 3, Paragraff 4 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Parhaodd yr ymgynghoriad am wyth wythnos a daeth i ben ddydd Mawrth, 14 Mawrth 2023.

Cawsom ddau ymateb gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig. Fodd bynnag, dim ond un corff dyfarnu a gynhwysodd unrhyw sylwadau mewn ymateb i gwestiynau'r arolwg ar-lein.

Crynodeb Gweithredol

I grynhoi, rydyn ni wedi penderfynu gosod a chyhoeddi'r Amodau Arbennig yn bennaf fel y'u nodir yn yr ymgynghoriad.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym ni wedi penderfynu:

- Diweddaru'r rhestr o gymwysterau TGAU Perthnasol o fewn yr Amodau Arbennig, gan ddiwygio teitlau a nifer y ffurfiau o gymwysterau i adlewyrchu canlyniadau'r ymgynghoriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol.
- Darparu mwy o eglurhad ar beth fydd y cyfnod Cymeradwyo ar gyfer pob un o'r cymwysterau TGAU Perthnasol.
- Gwneud diwygiadau canlyniadol i ddogfennau rheoleiddio perthnasol eraill.

Yn yr adran ganlynol, rydyn ni'n trafod yr adborth a gawsom mewn perthynas â'n cynigion a'r penderfyniadau a wnaethom mewn ymateb iddynt.

Ein Penderfyniadau

Sicrhau bod yr ystod lawn o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru ar gael i ddysgwyr
Roedd yr un corff dyfarnu a gyflwynodd ymateb ("ymatebydd") yn cytuno'n gryf â'n cynnig i'w gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu cydnabyddedig sicrhau bod yr ystod lawn o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru ar gael i ddysgwyr yng Nghymru.

Nododd yr ymatebydd, oherwydd maint y farchnad TGAU yng Nghymru, ac oherwydd nifer y cymwysterau TGAU newydd i'w cynnig (lle nad yw'r niferoedd sy'n cofrestru yn hysbys), efallai na fyddai'n fasnachol hyfyw i gynnig rhai cymwysterau TGAU oni bai eu bod yn rhan o ystod lawn.

Yn ogystal, nododd yr ymatebydd sut y bydd y gofyniad i gynnig cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol a pharhaus mewn darpariaeth gwasanaeth sy'n gofyn am ymrwymiad i'r ystod lawn o gymwysterau TGAU.

Nodwyd hefyd bod y cynigion yn sicrhau bod y cymwysterau TGAU newydd fel cyfres yn adlewyrchu ethos a chynnwys y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Yn seiliedig ar yr ymateb a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad, byddwn yn bwrw ymlaen i osod a chyhoeddi'r Amodau Cydnabod Arbennig gyda mân ddiwygiadau.

Mae'r rhestr o gymwysterau TGAU Perthnasol fel y'i hamlinellwyd yn Amod SPCQFF2 wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â'n hymgynghoriad diweddar ar ddyluniad yr ystod newydd o gymwysterau TGAU a wnaed i Gymru. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno mathau ychwanegol o gymwysterau TGAU, a mân newidiadau i deitlau rhai pynciau.

Yn benodol, mae rhestr y TGAU Perthnasol bellach yn cynnwys:

- TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Dyfarniad Sengl)
- TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Dyfarniad Dwbl)
- TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (Dyfarniad Sengl)
- TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (Dyfarniad Dwbl)
- TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Dyfarniad Sengl)
- TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl)
- TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Sengl)
- TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl)

Sicrhau bod yr ystod lawn o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru ar gael drwy gydol y cyfnod Cymeradwyo

Nodwyd gennym yn y ddogfennaeth ymgynghori mai ein bwriad oedd rhoi Cymeradwyaeth ar gyfer pob un o'r cymwysterau TGAU Perthnasol am gyfnod o hyd at bum mlynedd.

Roedd yr ymatebydd yn cytuno â'n cynnig i'w gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu cydnabyddedig sicrhau bod yr ystod lawn o gymwysterau TGAU newydd Gwneud-i-Gymru ar gael drwy gydol eu cyfnod Cymeradwyo.

Fodd bynnag, o ystyried maint y buddsoddiad sydd ei angen i fodloni gofynion y cymwysterau a gynigir, o ran ystod a'u dyluniad, roedd yr ymatebydd o'r farn ei bod yn hanfodol bod y gofyniad yn ymwneud ag oes arfaethedig y cymhwyster, a bod hyn yn cael ei nodi'n benodol yn ein fframwaith rheoleiddio.

Byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynnig i'w gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu cydnabyddedig sicrhau bod yr ystod lawn o gymwysterau TGAU Perthnasol ar gael drwy gydol eu cyfnod Cymeradwyo.

Bydd y Cymwysterau TGAU Perthnasol yn cael eu Cymeradwyo am gyfnod o 5 mlynedd. Mae'r cyfnod Cymeradwyo yn dechrau o'r dyddiad cyntaf y gall dysgwr ddechrau cwrs addysg sy'n arwain at ddyfarnu'r cymhwyster hwnnw a bydd yn parhau tan y dyddiad olaf y gall dysgwr ddechrau cwrs o'r fath. At ddibenion dysgwyr a ddechreuodd gymhwyster yn ystod y cyfnod Cymeradwyo bernir bod y cymhwyster wedi'i Gymeradwyo hyd nes y bydd y dysgwyr hynny wedi cael tystysgrif ar gyfer y cymhwyster, gan gynnwys y cyfle i ailsefyll.

Ar gyfer y TGAU hynny a fydd ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025, bydd eu cyfnod Cymeradwyo, fel y'i diffinnir o dan Adran 23(2) Deddf Cymwysterau Cymru 2015, yn dechrau ym mis Medi 2025 ac yn dod i ben ym mis Awst 2030. Fodd bynnag, bydd angen i'r cymwysterau hyn barhau yn y system nes bod pob dysgwr o'r fath wedi'i ardystio, gan gynnwys ailsefyll. Felly, byddant yn parhau fel cymwysterau Cymeradwy tan fis Awst 2032.

Ar gyfer y TGAU hynny a fydd ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2026, bydd eu cyfnod Cymeradwyo yn dechrau ym mis Medi 2026 ac yn dod i ben ym mis Awst 2031. Yn gyson â'r rhesymau a amlinellir uchod, bydd y cymwysterau hyn yn parhau fel cymwysterau Cymeradwy tan fis Awst 2033.

Bydd hyd y cyfnod Cymeradwyo yn cael ei bennu yn y Meini Prawf Cymeradwyo Lefel Cymhwyster TGAU.

Bydd adolygiad o bob TGAU perthnasol yn cael ei gynnal o leiaf blwyddyn cyn diwedd cyfnod Cymeradwyo'r cymhwyster. Bydd yr adolygiad hwn yn sicrhau bod y

Meini Prawf Cymeradwyo yn parhau'n briodol, ac yn ystyried a ddylai'r cymhwyster barhau i fod ar gael fel cymhwyster blaenoriaeth anghyfyngedig.

Gall cyrff dyfarnu ofyn am ymestyn cymeradwyaeth cymhwyster drwy ein cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW) cyn diwedd y cyfnod Cymeradwyo.

Diwygiadau canlyniadol i ddogfennau rheoleiddio eraill
I adlewyrchu cyflwyno'r Amodau Cydnabod Arbennig hyn, mae mân ddiwygiadau canlyniadol wedi'u gwneud i'r dogfennau rheoleiddio canlynol:

- Meini Prawf Cydnabod ar gyfer dyfarnu Cymwysterau TGAU/TAG, a
- Rheolau ar Geisiadau am Gydnabyddiaeth i Ddyfarnu cymwysterau TGAU/TAG.

Asesu Effaith

Buom yn ystyried yn ofalus effaith ein cynigion ar gyrff dyfarnu, y personau hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol ac ar y Gymraeg fel rhan o'n hymgynghoriad.

Eglurwyd yn yr ymgynghoriad ein barn y byddai gosod yr Amod Cydnabod Arbennig hwn yn rhoi mwy o reolaeth reoleiddiol i ni ar y cymwysterau TGAU a gynigir yng Nghymru, ac yn ei dro, yn rhoi'r hyder i ni y bydd canolfannau yng Nghymru yn gallu dewis o'r ystod lawn o gymwysterau newydd a fwriedir i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Byddai hefyd yn sicrhau cynnig TGAU hyfyw, cynaliadwy a sefydlog.

Credai'r ymatebydd i'r ymgynghoriad fod peidio â darparu isafswm cyfnod Cymeradwyaeth yn peri risg i fuddsoddiad. Fel y nodwyd yn yr adran uchod, ein bwriad yw i bob cymhwyster TGAU newydd, Gwneud-i-Gymru gael ei Gymeradwyo am gyfnod o 5 mlynedd. Er mwyn lliniaru'r risg ganfyddedig hon, ac i ddarparu eglurhad ychwanegol, byddwn yn nodi'n glir hyd y Gymeradwyaeth yn y Meini Prawf Cymeradwyo Lefel Cymhwyster TGAU.

Nodwn fod penderfyniadau a wnaed ar ddyluniad yr ystod newydd o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru wedi arwain at gynnydd yn nifer y ffurfiau ar gymwysterau TGAU a fydd ar gael i ddysgwyr o fis Medi 2025 ymlaen. Yn ein hymgynghoriad gwreiddiol, nifer y TGAU perthnasol oedd yn ddarostyngedig i'r Amod Arbennig hwn oedd 27; mae hyn wedi cynyddu i 30 erbyn hyn.

Bydd hyn yn rhoi effaith reoleiddiol ychwanegol ar gyrff dyfarnu o ran gorfod sicrhau bod nifer fwy o gymwysterau TGAU ar gael. Bydd hefyd yn rhoi effaith ychwanegol o ran llwyth gwaith ar unrhyw gorff dyfarnu sy'n datblygu'r cymwysterau hyn ar gyfer addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025 a 2026.

Er mwyn lliniaru'r effaith bosibl hon, rydym wedi bod yn trafod yn rheolaidd â Llywodraeth Cymru a CBAC[1] i drafod sut, a phryd y dylid cyflwyno'r ystod lawn o TGAU perthnasol i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru ac i ennyn hyder y cyhoedd.

O ganlyniad i'r trafodaethau hynny, rydym wedi cytuno ar ddull a fydd yn sicrhau ystod o gymwysterau TGAU newydd wedi'u blaenoriaethu erbyn 2025 sy'n realistig i'w cyflawni, gan ddarparu'r newid sylweddol angenrheidiol i alluogi ysgolion i gyflwyno cwricwla eu hysgolion yn hyderus. Bydd cymwysterau newydd pellach ar gael yn 2026 i adeiladu ar yr ystod gychwynnol hon o TGAU a rhoi cymorth pellach ar weithredu'r cwricwlwm.

[1]Hyd yma, CBAC yw'r unig gorff dyfarnu sydd wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnig cenhedlaeth newydd o TGAU i ddysgwyr yng Nghymru.

Ni awgrymodd yr ymatebydd fod geiriad yr Amod Arbennig arfaethedig wedi arwain at unrhyw effeithiau ychwanegol ar gydraddoldeb nac ar y Gymraeg.

Y Camau Nesaf

Mae'r Amodau Cydnabod Arbennig hyn wedi'u cyhoeddi a byddant yn dod i rym ar y dyddiad y caiff unrhyw un neu ragor o'r cymwysterau TGAU Perthnasol a restrir yn yr Amodau Cydnabod Arbennig eu Cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru yn unol â Rhan 4 o'r Ddeddf.

Byddwn yn monitro ac yn adolygu gweithrediad yr Amodau Cydnabod Arbennig, a chydymffurfiaeth â hwy yn ystod cyfnod Cymeradwyo pob un o'r TGAU perthnasol.

Mae fersiynau diwygiedig o'n Meini Prawf Cydnabod ar gyfer dyfarnu cymwysterau TGAU/TAG, a Rheolau ar Geisiadau am Gydnabyddiaeth i ddyfarnu cymwysterau TGAU/TAG ar gael ar ein gwefan.